

Prosiect Cyd-Greu Ieuentid Ysgol Y Preseli

Mae Celfyddydau SPAN, sef sefydliad celfyddydol cymunedol yn Sir Benfro, am recriwtio artist sy'n siarad Cymraeg i hwyluso'r prosiect cyffrous hwn mewn ysgol Gymraeg leol.



Ynglŷn â'r prosiect

Bydd y prosiect yn cynnwys dosbarth cymysg o blant blwyddyn 8 Ysgol Y Preseli, Crymich, gyda'r nod o adfywio gardd gymunedol yr ysgol, yn dilyn cyfres o weithdai cyd-greu dan arweiniad aelodau o dîm Celfyddydau SPAN.

Nod y prosiect yw defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu i ailwampio'r ardd gymunedol drwy gyfres o weithdai, a gwella iechyd corfforol ac emosiynol disgyblion ar yr un pryd.

Roedd y thema o ailgylchu yn elfen bwysig i ddisgyblion yn ystod y gweithdai cyd-greu, ynghyd â gwella iechyd emosiynol a chorfforol, cydweithio, a chael llais fel person ifanc yn tyfu i fyny yng Ngorllewin Cymru. Hoffem weld elfennau o'r themâu hyn yn cael eu hymgorffori yn y prosiect.

Dyma gyfle eithriadol i ddisgyblion weithio gydag artist proffesiynol i archwilio amrywiaeth o dechnegau a sgiliau celf, mewn ffordd bositif, greadigol a chyfannol wrth weithio gyda'u hamgylchedd a lleisio'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae'r prosiect yn rhan ehangach o brosiectau ieuentid SP yn Sir Benfro, a ariennir gan gronfa CREU Cyngor Celfyddydau Cymru.

Am beth yn ni'n chwilio

- Artist hynod greadigol, deinamig sy'n dod â dyfnder o brofiad a dawn i ysbrydoli plant.
- Rhywun sy'n gallu gwneud dysgu yn brofiad hwyl
- Rhywun sy'n gynhwysol, yn hyblyg, yn ymatebol, ac yn gyfathrebwr ardderchog
- Mae Ysgol Y Preseli yn ysgol Gymraeg ei hiaith, felly mae gofyn am artist sy'n siarad Cymraeg/ dwyieithog er mwyn hwyluso'r gweithdai.
- Pwyslais ar ymarfer cynaliadwy, gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u haildefnyddio neu eu hailgylchu lle bo modd, ochr yn ochr â defnyddio deunyddiau celf o ansawdd da lle bo angen.
- Ystyriaeth i'r amgylchedd a chynaliadwyedd
- Syniadau a allai ysbrydoli disgyblion i ymwneud â'u gardd gymunedol a'u grŵp eco ysgol.
- Ffyrdd creadigol o ddogfennu'n weledol ac yn fyfyrion drwy gydol y prosiect mewn cyfraniad at werthuso ar ddiwedd y prosiect.

Sut i gyflwyno eich syniad

Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno eich ymateb creadigol ym mha bynnag fformat sy'n gweithio orau i chi, gallai gael ei ysgrifennu, fideo neu sain. Pa bynnag fformat rydych chi'n ei ddewis rydyn ni'n gofyn i chi ddweud wrthon ni:

- Pwy ydych chi ac ychydig am eich ymarfer creadigol
- Pa fath o waith rydych chi'n ei wneud, beth sy'n eich ysbrydoli, pa mor hir rydych chi wedi bod yn ei wneud, neu unrhyw brosiectau neu brofiad yn y gorffennol rydych chi'n meddwl byddai'n ddefnyddiol i ni ei wybod.
- Beth yw eich syniad a sut y gallai gael effaith mwy hirdymor ar yr ysgol

Amserlen

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 12 pm ddydd Iau 7^{fed} Ionawr 2023.

Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni rhwng Ionawr a Mawrth 2023, gydag union ddyddiadau i'w cytuno arnynt gyda'r artist a'r ysgol ar recriwtio.

Yn ogystal, yn dilyn y gweithdai, byddai'r artist yn cyfrannu at agor yr ardd gymunedol.

Sut y bydd yr artist yn cael ei dewis

Bydd yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am drafodaeth greadigol er mwyn dweud rhagor wrthym am eu syniad.

Bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan banel bach sy'n cynnwys aelodau o dîm SPAN, cynrychiolwyr ysgolion, a phlant fydd yn cymryd rhan yn y cyfle cyffrous hwn.

Beth nesaf?

Bydd tîm SPAN yn trefnu i'ch cyfarfod, cyflwyno tîm yr ysgol, a chytuno ar fanylion y gwaith, a chwblhau eich cyllideb.

Yr hyn y gallwn ei gynnig

Bydd y prosiect yn cael ei reoli gan dîm Celfyddydau SPAN, a fydd yn:

- Eich cefnogi i gyflawni'r prosiect
- Cydlynu gofod a chyflwyno gweithdai gyda chi a'r ysgol
- Rhoi cymorth i wirfoddolwyr os oes angen
- Talu am gost a chefnogi cyrchu deunyddiau ac offer yn ôl yr angen yn unol â'r gyllideb
- Cydlynu a gweithredu polisiau diogelu, iechyd a diogelwch SPAN, a diogelu data
- Darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i'r prosiect
- Ffi am eich amser: mae hyn yn cynnwys amser cynllunio a chyflawni. Mae SPAN yn cynnig tâl teg ar gyfer yr artistiaid rydym yn gweithio gyda, a byddem yn disgwyl talu rhwng £150 a £250 fesul diwrnod gwaith llawn yn dibynnu ar eich profiad ac os yw'n amser cyn/cynllunio neu gyflawni gweithredol.

Cymhwysedd

Mae'r prosiect yn agored i'r rhai sy'n drigolion yn y DU a dros 18 oed.

Gallwch fod wedi'ch lleoli unrhyw le yn y DU; fodd bynnag, rydym yn annog ymatebion creadigol gan artistiaid sydd â chysylltiad personol â Gorllewin Cymru ac sy'n deall cyd-destun unigryw'r rhanbarth.

Rydym ni'n annog ymatebion creadigol yn weithredol gan artistiaid lliw, pobl sy'n anabl a / neu'n niwroddatblygiadol, a siaradwyr Cymraeg a byddwn yn gweithio i gefnogi unrhyw anghenion mynediad sydd gennych.

Cysylltu â ni

Os hoffech gael sgwrs cyn gwneud cais, e-bostiwch info@span-arts.org.uk neu ffoniwch 01834 869 323 i drafod hyn yn fanylach.

Prosiect Cyd-Greu Ieuentid Ysgol Y Preseli yn gryno

Galwad-allan am syniadau i ddod â gardd gymunedol Ysgol Y Preseli yn fyw mewn cydweithrediad â disgyblion blwyddyn 8.

Mae'r galwad-allan ar agor o 12^{fed} Rhagfyr

Dywedwch wrthym am eich syniad ym mha bynnag fformat sy'n disgrifio eich syniad orau a'i anfon at info@span-arts.org.uk. Os ydych chi eisiau, gallwch drafod eich syniad cyn gwneud cais. Cysylltwch trwy e-bostio info@span-arts.org.uk.

Os bydd eich syniad yn cael ei ddewis, byddwch yn dechrau eich gwaith gyda chefnogaeth gan y tîm SPAN.

Byddwch yn cadw dyddiadur myfyriol o ryw ffurf ac yn chwarae rhan weithredol wrth ein helpu i ddeall y gwahaniaeth y mae eich gwaith yn ei wneud.

Rhaid gorffen y prosiect erbyn diwedd Mawrth 2023.